



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

---

# Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

## **Atodlen 8: Personau neilltuedig sy'n darparu i'r cyhoedd wasanaethau rheilffyrdd i deithwyr**

# Cynnwys

---

1	Cefndir a chyd-destun	1
2	Ymchwiliad safonau mewn perthynas â phersonau neilltuedig sy'n darparu i'r cyhoedd wasanaethau rheilffyrdd i deithwyr	2
3	Rhesymoldeb a chymesuredd	4
4	Tystiolaeth a dderbyniwyd gan y personau perthnasol	7
5	Tystiolaeth a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd	24
6	Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Banel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg	32
7	Casgliadau'r ymchwiliad safonau	33
8	Y Camau Nesaf	37
	Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymchwiliad safonau	38

# 1 Cefndir a chyd-destun

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur'), yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw at y ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Hyd yn hyn, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cynnal ymchwiliadau safonau mewn perthynas â 209 o sefydliadau. Mae'r Mesur yn cyfeirio at 'personau sy'n agored i orfod cydymffurfio â safonau'. Mae 'person' yn y cyd-destun hwn yn golygu sefydliadau a sectorau sy'n dod o fewn categori o bersonau a bennir yn Atodlenni 5 a 6, neu Atodlenni 7 ac 8.

Mae'r ymchwiliad i'r sector bysiau a threnau yn ychwanegol i'r nifer hynny. Dyma'r ail ymchwiliad i sectorau a enwir yn Atodlen 8, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Eisoed mae ymchwiliad wedi ei gynnal i bersonau neilltuedig sy'n darparu swyddfeydd post i'r cyhoedd ac ymgwymerwyr dŵr a charthffosiaeth. Mae'r Comisiynydd hefyd yn y broses o gynnal ymchwiliad i'r sectorau nwy a thrydan.

Mae'r Comisiynydd wedi defnyddio'r gweithgareddau a restrir yn Atodlen 9 Mesur y Gymraeg fel sail i'r ymchwiliad hwn.

## 2 Ymchwiliad safonau mewn perthynas â phersonau neilltuedig sy'n darparu i'r cyhoedd wasanaethau rheilffyrdd i deithwyr

Yn unol ag adran 62 y Mesur, cyflwynwyd hysbysiad rhagymchwilio ar 7 Mawrth 2016 at y cwmnïoedd perthnasol.

Ar gyfer yr ymchwiliad hwn, penderfynodd y Comisiynydd flaenoriaethu'r gwasanaethau rheilffyrdd i deithwyr a ddarperir drwy y gyfundrefn fasnachfrait a sefydlwyd gan Ddeddf Rheilffyrdd 1993. Mae pedwar masnachfrait yng Nghymru sy'n cael eu rhedeg gan bedwar cwmni trenau, sef:

- Trenau Arriva Cymru
- First Great Western
- Virgin Trains
- Cross Country Trains

Nid yw'r ymchwiliad hwn yn ystyried gwasanaethau i deithwyr a ddarperir ar reilffyrdd trên bach neu reilffyrdd dreftadaeth. Mae pob cyfeiriad at gwmnïau trên neu ddarparwyr gwasanaethau rheilffyrdd yn yr adroddiad hwn yn gyfeiriad at y pedwar masnachfrait.

Hysbysiad ysgrifenedig yw hysbysiad rhagymchwilio, sy'n datgan bwriad Comisiynydd y Gymraeg i gynnal ymchwiliad safonau, ac sy'n pennu pwnc yr ymchwiliad safonau. Ni chaiff y Comisiynydd gynnal ymchwiliad safonau oni bai iddi roi hysbysiad rhagymchwilio i bob person perthnasol (sefydliad) o leiaf 14 diwrnod cyn dechrau ar yr ymchwiliad.

Pwnc yr ymchwiliad safonau hwn oedd dyfarnu:

- pa safonau (os o gwbl) a ddylai fod yn benodol gymwys i bersonau (p'un a yw'r safonau eisoes wedi eu pennu gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1) ai peidio).

Noda memorandwm esboniadol Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru) 2010 '[bod] dyletswyddau y gellir eu gosod ar y personau hynny a restrir yn Atodlen 8 yn y Mesur arfaethedig, ac sydd o fewn Atodlen 7, yn gyfyngedig i ddyletswyddau sy'n dod o fewn dau fath o safon, sef cyflenwi gwasanaethau a chadw cofnodion.'<sup>1</sup>

Roedd yr ymchwiliad, felly, yn casglu tystiolaeth ar y gweithgareddau a restrir fel safonau cyflenwi gwasanaeth a chadw cofnodion yn Atodlen 9 Mesur y Gymraeg.

Cychwynnodd cyfnod yr ymchwiliad safonau hwn ar 31 Mawrth a daeth i ben ar 30 Mehefin 2016.

Yn rhan o'r ymchwiliad safonau hwn, casglwyd gwybodaeth gan gwmnïau trenau sy'n weithredol yng Nghymru trwy dderbyn holiadur wedi ei gwblhau ganddynt. Casglwyd tystiolaeth hefyd gan Banel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg a'r cyhoedd.

<sup>1</sup> Memorandwm esboniadol Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru)

## **Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 8: personau sy'n darparu gwasanaethau rheilffyrdd i'r cyhoedd**

Cynhaliwyd dau sesiwn briffio ar bwrpas a chylch gorchwyl yr ymchwiliad ar gyfer y cwmnïau bysiau a threnau. Un ar 12 Ebrill 2016 yng Nghanolfan Fusnes Conwy a'r llall ar 15 Ebrill 2016 yn Neuadd y Ddinas yng Nghaerdydd.

## 3 Rhesymoldeb a chymesuredd

Yn unol ag adran 63(1) y Mesur, rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i'r angen am sicrhau nad yw gofynion am i bersonau gydymffurfio â safonau yn rhinwedd adran 25(1) yn afresymol neu'n anghymesur. Ystyriwyd rhesymoldeb a chymesuredd wrth greu'r adroddiad safonau hwn a bydd yr ystyriaeth hon yn parhau trwy gydol y camau sydd i ddilyn.

### Cam 1: Ymchwiliad safonau

Cyflwyno adroddiad safonau yn seiliedig ar ymgynghoriad gyda'r sector yw cwblhad cam cyntaf y broses.

Wrth gynnal ymchwiliad safonau, rhaid i'r Comisiynydd:

- a) ystyried, o ran pob gweithgaredd a bennir yn Atodlen 9 y mae person yn ei wneud, a yw'n rhesymol ac yn gymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys ai peidio, ac
- b) ran pob gweithgaredd o'r fath, os yw'n rhesymol ac yn gymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson, ddod i'r casgliad y dylai safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i'r person mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw.

### Cam 2: Cyflwyno rheoliadau

Mae'r Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod rheoliadau yn darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â phob un o'r gweithgareddau yn Atodlen 9 a wneir gan y person (ac i'r graddau y mae'n eu gwneud) yn benodol gymwys i'r person hwnnw.

Ond nid oes rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â gweithgaredd a bennir yn Atodlen 9 os yw, neu i'r graddau y mae:

- a) adroddiad safonau o dan adran 64 yn nodi y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw, neu bod
- b) Gweinidogion Cymru o'r farn y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw.

Nid yw hynny'n atal rheoliadau rhag darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau eraill yn benodol gymwys i berson.

### Cam 3: Pleidlais ar y rheoliadau drafft ar lawr y Senedd

Bydd dadl a phleidlais ar gymeradwyo'r rheoliadau drafft yng nghyfarfod llawn y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd pleidlais i gymeradwyo'r rheoliadau yn gwneud y safonau'n benodol

gymwys i'r sefydliad neu'r sector, ac yn galluogi'r Comisiynydd i roi hysbysiad cydymffurfio iddynt.

## Cam 4: Hysbysiadau cydymffurfio drafft a therfynol

Drwy wneud rheoliadau o dan y Mesur hwn yn arferadwy drwy offeryn statudol, awdurdodir Comisiynydd y Gymraeg i roi hysbysiad cydymffurfio i berson.

Hysbysiad cydymffurfio yw hysbysiad a roddir i berson gan y Comisiynydd:

- a) sy'n nodi, neu'n cyfeirio at, un neu ragor o safonau a bennir gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1), a
- b) sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson gydymffurfio â'r safon neu â'r safonau a nodir neu y cyfeirir ati neu atynt.

Bydd y Comisiynydd yn ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd wrth ddod i benderfyniad ar gynnwys hysbysiad cydymffurfio a roddir i berson.

Nid yw'r ffaith bod safon yn benodol gymwys i berson yn golygu bod dyletswydd arno i gydymffurfio â'r safon honno. Dim ond os bydd y Comisiynydd yn rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r person, a bod yr hysbysiad hwnnw'n ei gwneud hi'n ofynnol i gydymffurfio â safon ar ddiwrnod gosod, y bydd y ddyletswydd honno mewn grym.

Bydd y Comisiynydd yn ymgynghori gyda pherson ar gynnwys hysbysiad cydymffurfio drafft. Dyma gyfle i ystyried rhesymoldeb a chymesuredd unrhyw ofynion penodol o fewn yr hysbysiad a bydd modd i'r sefydliad gyflwyno tystiolaeth bellach yn hynny o beth.

Yn seiliedig ar yr ymgynghoriad hwnnw, bydd Comisiynydd y Gymraeg yn cyflwyno hysbysiad cydymffurfio terfynol i berson. Nid yw methiant y person i gymryd rhan mewn ymgynghoriad yn atal y Comisiynydd rhag rhoi hysbysiad cydymffurfio iddynt.

Wedi i'r Comisiynydd roi hysbysiad cydymffurfio i berson, caiff y person hwnnw wneud cais i'r Comisiynydd yn gofyn iddi ddyfarnu a yw'r gofyniad i gydymffurfio â'r safon honno, neu i gydymffurfio â'r safon yn y modd hwnnw, yn afresymol neu'n anghymesur ai peidio. Pe bai'r Comisiynydd yn hysbysu person nad yw'r gofyniad i gydymffurfio â safon yn afresymol neu'n anghymesur, rhoddir hawl yn y Mesur iddo apelio i'r Tribiwnlys er mwyn dod i ddyfarniad.

## Meini prawf Comisiynydd y Gymraeg

Wrth ddod i farn ar bwnc yr ymchwiliad safonau hwn, yn unol â'r gofynion a amlinellir yn Rhan 4, Pennod 8 y Mesur, ystyriwyd y meini prawf canlynol ochr yn ochr â'r dystiolaeth a dderbyniwyd yn rhan o'r ymchwiliad safonau. Nid oes rhaid ystyried pob maen prawf ymhob achos, ac nid oes un o'r meini prawf yn bwysicach na'i gilydd.

- A yw'r person perthnasol yn agored i orfod cydymffurfio â safonau – a yw'r person perthnasol yn dod o fewn Atodlen 7 a hefyd o fewn Atodlen 8?
- A yw'r dosbarth o safon (cyflenwi gwasanaethau; cadw cofnodion) yn gymwysadwy i'r person perthnasol?
- A yw'r person perthnasol yn gwneud y gweithgaredd dan sylw?

## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 8: personau sy'n darparu gwasanaethau rheilffyrdd i'r cyhoedd

- A yw'r person perthnasol eisoes wedi ymrwymo i ddarparu'r gweithgaredd, neu'r weithred dan sylw, yn rhannol neu'n llawn, drwy ei gynllun neu bolisi iaith Gymraeg?
- A yw'r person perthnasol eisoes yn darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg (boed hynny'n cyfateb i'r union ofynion sydd ynghlwm wrth safon ai peidio), neu'n gwneud y gweithgaredd yn unol â'r safon?
- A yw mwyafrif helaeth y personau perthnasol eraill o fewn yr un sector yn darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg, neu'n gwneud y gweithgaredd?
- A oes unrhyw resymau eraill yn erbyn, neu o blaid gwneud y safon yn benodol gymwys i'r person perthnasol?



## 4 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan y personau perthnasol

Derbyniwyd tystiolaeth gan bob un o'r pedwar cwmni trên sy'n weithredol yng Nghymru. Cyflwynwyd ymatebion i'r 36 o gwestiynau a holwyd ar ffurf holiadur. Roedd yr holiadur ar gael er lein ac ar ffurf copi caled ac anfonwyd at bob cwmni perthnasol trwy'r post. Roedd y cwestiynau yn gyfuniad o gwestiynau agored, aml ddewis a chyfle i gyflwyno sylwadau pellach.

Rhoddir crynodeb o'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr ymatebwyr yn yr adran yma o'r adroddiad. Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch natur a strwythur y cwmnïau dan sylw, pa weithgareddau a wneir gan y personau dan sylw a pha weithgareddau y maent yn eu gwneud trwy'r Gymraeg.

Yn absenoldeb unrhyw safonau drafft neu safonau sydd wedi eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru sy'n berthnasol i'r sector dan sylw nid oedd yr holiadur yn gofyn i sefydliadau fynegi eu gallu i weithredu yn unol ag unrhyw safonau penodol.

## Personau neilltuedig sy'n darparu i'r cyhoedd wasanaethau rheilffyrdd i deithwyr

### Adran 1: Gwybodaeth Cyffredinol

Dyma grynodedb o'r ymatebion:

#### Ym mha siroedd mae'r cwmnïau yn cynnal gwasanaethau?


Ar sail yr ymatebion a dderbyniwyd, mae'r tabl isod yn dangos y nifer o gwmnïau sy'n ddarparu i'r cyhoedd wasanaethau rheilffyrdd yn ôl bob sir yng Nghymru.



#### Casgliadau

Mae'r siart yn dangos bod cwmnïau trên yn gweithredu yn gyson dros bob sir yng Nghymru. Mae'r nifer uchaf o gwmnïau'n gweithredu yng Nghaerdydd a Chasnewydd sydd yn ddealladwy o ystyried maint y boblogaeth yn y ddwy sir hon.

Faint o deithwyr a ddefnyddiodd eich gwasanaethau yn ystod y flwyddyn diwethaf?



### Casgliadau

Mae'r amrediadau a ddefnyddir uchod yn cyfeirio at y nifer o deithwyr fesul blwyddyn a ddefnyddiodd y gwasanaethau rheilffyrdd. Roedd tri cwmni yn amrywio rhwng 30 a 40 miliwn o deithwyr y flwyddyn. Dylid nodi bod y ffigyrau yn cynrychioli faint o deithwyr a ddefnyddiodd y gwasanaethau ledled y Deyrnas Unedig.

Dim ond un cwmni oedd yn gallu cynnig dadansoddiad manwl o'r gwahanol fathau o deithiau a gymerwyd gan y cyhoedd. Dadansoddwyd yn ôl Cymru yn unig, Cymru a Lloegr a nifer o ffactorau eraill sy'n ymwneud â ble mae'r siwrne yn dechrau a gorffen. Nododd y cwmni bod rhai teithiau yn cael eu cyfrif ddwywaith gan fod teithwyr yn gallu defnyddio unrhyw wasanaeth sy'n rhedeg ar hyd yr un linell.

Roedd eraill yn nodi nad oedden nhw yn casglu yn ôl teithiau yng Nghymru yn unig gan fod teithwyr yn defnyddio gwasanaethau sy'n teithio rhwng Cymru a Lloegr.

Derbyniwyd sylwadau yn egluro bod nifer o deithiau yn dechrau yng Nghymru a gorffen yn Lloegr. Eglurwyd hefyd bod rhai teithiau yn dechrau yn Lloegr a gorffen yng Nghymru a theithiau eraill yn croesi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr ar nifer o adegau yn ystod y siwrne. Amlygwyd felly cymhlethdod rhai o'r teithiau a natur traws-ffiniol y gwasanaeth.

### Sawl aelod o staff sy'n gweithio i'r cwmnïau trenau yng Nghymru?

Yn ôl yr ymatebion mae'r nifer o staff sy'n gweithio i'r cwmnïau trenau sy'n weithredol yng Nghymru yn amrywio yn sylweddol o dri aelod o staff i 515 aelod a 1775 aelod o staff.

Ceir cryn dipyn o amrywiaeth yn y ffordd y mesurir y data. Mae un cwmni yn cyflwyno ar sail cyfeiriad cartref yr aelodau o staff, eraill yn cyflwyno ar sail y staff sy'n gweithio yng Nghymru gan gynnwys niferoedd sy'n gweithio i gwmnïau arlwyio atodol.

### **Sawl aelod o staff sydd â sgiliau Cymraeg?**

Roedd tri allan o'r pedwar cwmni a ymatebodd yn nodi bod ganddynt drefniadau mewn lle i fesur sgiliau iaith staff. Adroddodd un cwmni bod 15 aelod o staff ganddynt yn siarad Cymraeg, gan ychwanegu eu bod ond yn casglu gwybodaeth ar sgiliau iaith yr aelodau o staff sy'n gwynebu'r cyhoedd. Nododd un cwmni bod 20 allan o'r 56 aelod o staff oedd ganddynt yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg, sef tua 36%.

Nododd cwmni arall mai un aelod o staff oedd ganddynt oedd yn gallu siarad Cymraeg. Eglurodd dau o'r tri cwmni oedd â staff sy'n siarad Cymraeg nad oeddent yn teimlo bod y data oedd ganddynt yn gwbl ddibynadwy.

Ymddengys bod pob cwmni yn gallu mesur sgiliau staff i ryw raddau a bod rhai yn cyflogi canran cymharol uchel o siaradwyr Cymraeg.

### **Faint o gwmnïau sydd wedi is contractio gwasanaethau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?**

Mae pob cwmni a ymatebodd yn adrodd bod gwasanaethau yn cael eu is contractio i gwmnïau eraill. Ymysg y gwasanaethau a is contractir mae hysbysebu, marchnata, gwasanaethau glanhau ac arlwyo. Roedd rhai cwmnïau yn adrodd ynglŷn â'r berthynas sydd mewn lle gyda chwmnïau trên eraill o ran cynnal a chadw'r trenau, hysbysebu amserlenni, a'r gwasanaethau masnachol a ddarperir mewn rhai gorsafoedd.

### **Faint o gwmnïau sy'n dyfarnu grantiau i drydydd parti?**

Roedd un allan o'r pedwar cwmni yn adrodd bod trefniadau mewn lle i ddyfarnu grantiau i drydydd parti. Mae'r cwmnïau yn cynnig cronfa o arian i gwsmeriaid a chymunedau. Gellir gwneud cais am grant o'r gronfa i ddatblygu adnoddau cymunedol ar draws rhwydwaith y cwmni.

## Adran 2: Gwasanaethau cyfrwng Cymraeg

### Faint o gwmnïau sy'n gweithredu unrhyw fath o bolisi neu gynllun iaith Gymraeg ar hyn o bryd?

Roedd dau allan o'r pedwar cwmni yn adrodd bod ganddynt bolisi neu gynllun iaith ar hyn o bryd. Mae'r ddau gwmni wedi darparu fersiynau cyfredol o'u polisiau iaith fel rhan o'u hymatebion i'r ymchwiliad.

Yn y polisi cyntaf canfuwyd bod yr ymatebion i'r holiadur yn gyson gyda'r ymrwymïadau a nodwyd yn y polisi iaith gyda dau prif eithriad:

1. Mewn perthynas â gohebiaeth, mae'r polisi iaith yn ymrwmo at anfon cylchlythron a gohebiaeth safonol yn ddwyieithog. Mae'r holiadur yn nodi mai yn Saesneg yn unig bydd y cwmni yn *'anfon gohebiaeth at nifer o bobl ar yr un pryd e.e. cylchlythyr'*.
2. Mae'r ail eithriad mewn perthynas â gwefan y cwmni. Mae'r ymateb i'r holiadur yn nodi bod gwefan y cwmni yn *'Gymraeg neu'n ddwyieithog pob tro'*. Mae'r polisi iaith yn nodi *'We are working to provide increased Welsh language content on our website, however some information is 'fed' through common rail industry systems which are only programmed centrally to provide information/data in the English language.'* Mae hyn yn awgrymu bod cynnydd wedi bod yn y ddarpariaeth rhwng mabwysiadu'r polisi a chwblhau'r holiadur.

Ystyriwyd cynnwys polisi iaith y cwmni arall. Cymharwyd y polisi yn erbyn yr adborth a dderbyniwyd trwy holiadur yr ymchwiliad safonau. Ar y cyfan mae'r ymrwymïadau yn y polisi iaith yn gryfach na'r ymateb i'r holiadur. Dyma drosolwg o'r gwahaniaethau a nodwyd:

#### Delio â'r cyfryngau

- mae'r polisi yn ymrwmo i ddarparu datganiadau Cymraeg ar gyfer cyhoeddiadau a chyfryngau cyhoeddus eraill
- mae'r polisi yn ymrwmo i gyhoeddi datganiadau gwleidyddol a materion cyhoeddus yn y Gymraeg ar gais

#### Hysbysebu

- mae'r polisi yn cynnig ymrwymïadau ychwanegol wrth ystyried defnyddio'r Gymraeg fel rhan o ymgyrchoedd hysbysebu yng Nghymru

#### Delio â chwsmeriaid

- mae'r polisi yn cyfeirio at argaeledd llinell ffôn Cymraeg y 'National Rail Enquiries Service' er mwyn delio ag ymholiadau
- mae'r polisi yn nodi'r ymrwymïad canlynol: yn dilyn sgwrs ffôn yn y Gymraeg, bydd unrhyw ohebiaeth ysgrifenedig ganlynol trwy gyfrwng y Gymraeg (os na dderbynnir cais ysgrifenedig i dderbyn gohebiaeth yn Saesneg)

#### Delwedd cyhoeddus

- mae'r polisi yn gwneud ymrwymïad i gefnogi'r Gymraeg yng Nghymru trwy fanteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith fel rhan o ddelwedd gyhoeddus y cwmni
- mae'r polisi yn cynnig y bydd y cwmni yn darparu dogfennau ffurfiol yn y Gymraeg ar gais

## Gwefan

- o mae'r polisi yn gwneud ymrwymiad i greu adran trwy gyfrwng y Gymraeg ar wefan y cwmni. Bydd yr adran hon yn cynnig y dogfennau sydd eisoes ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg a chyfarwyddiadau ar sut i wneud cais am gyfieithiad o ddogfennau sydd ddim ar gael trwy gyfrwng Gymraeg ar hyn o bryd
- o mae cynnwys ymateb y cwmni i'r ymchwiliad safonau yn cynnig bod darpariaeth y cwmni trwy gyfryngau cymdeithasol wedi datblygu ers cyhoeddi'r polisi iaith yn enwedig o safbwynt defnydd o Facebook trwy gyfrwng y Gymraeg

## Faint o gwmnïau sy'n cynnig hyfforddiant ieithyddol i'r staff

Un cwmni a nododd bod hyfforddiant ieithyddol ar gael i'r staff.

Adroddodd y cwmni hwnnw bod gwersi Cymraeg wedi bod ar gael ar un adeg trwy gytundeb cyd addysgu gyda'r undebau llafur perthnasol. Bellach, nid yw'r gwasanaeth ar gael i staff newydd. Aeth yr un cwmni ymlaen i gyfeirio at y trefniadau sydd mewn lle i ystyried ceisiadau am addysg ychwanegol mewn perthynas ag anghenion busnes fel rhan o adolygiadau perfformiad blynyddol gyda rheolwyr llinell. Mae'r cwmni yn nodi bod unrhyw geisiadau yn cael eu trafod yn ofalus a ble'n ymarferol bydd trafodaeth gyda'r cynrychiolydd undeb er mwyn caniatáu amser i astudio ac o bosib i gyllido'r cwrs.

## Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff

Rhannwyd y cwestiwn ar ohebiaeth yn 3 adran sef:

- o anfon gohebiaeth yn uniongyrchol at unigolyn
- o ymateb i ohebiaeth Cymraeg rydych wedi ei dderbyn
- o anfon gohebiaeth at nifer o bobol yr un pryd.

Dyma'r ymatebion a gafwyd:

	Dwyieithog neu Gymraeg yn unig	Saesneg gyda pheth Cymraeg	Saesneg yn unig	Ddim yn berthnsaol
Anfon gohebiaeth yn uniongyrchol at unigolyn	0	1	3	0
Ymateb i ohebiaeth Gymraeg rydych wedi ei dderbyn	0	2	2	0
Anfon gohebiaeth at nifer o bobol yr un pryd	2	0	1	1

## 2.4 Sylwadau pellach

Roedd un cwmni yn adrodd bod pob e-bost cydnabod gan y Tîm Cysylltiadau Cwsmeriaid yn ddwyieithog a bydd unrhyw ohebiaeth Cymraeg i gysylltiadau cwsmeriaid neu uwch reolwyr yn derbyn ymateb yn y Gymraeg. Bydd negeseuon trydar yn Gymraeg yn derbyn

## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 8: personau sy'n darparu gwasanaethau rheilffyrdd i'r cyhoedd

ymateb yn Gymraeg pan fydd adnoddau ar gael. Mae'r cylchlythyr yn Saesneg yn unig ond bydd taflenni ffeithiau ar gael yn Gymraeg. Yn ôl y cwmni, bydd ymatebion e-byst i'r timoedd we a gwerthu dros y ffôn yn Saesneg yn unig. Bydd cadarnhad archebion ond ar gael yn Saesneg.

Nododd cwmni arall bod y timoedd cyswllt cwsmeriaid, marchnata a chyfathrebu yn seiliedig y tu allan i Gymru a bod y rhan helaeth o ohebiaeth a gyflwynir drwy e-bost, yn y post a thrwy gyfryngau cymdeithasol yn cyrraedd yn Saesneg. Nid yw'r cwmni wedi gweld yr angen i ddarparu gwasanaethau dwyieithog na chyfieithu hyd yma. Os bydd gohebiaeth yn cyrraedd yn gofyn am ymateb yn Gymraeg, yna bydd y cwmni yn ceisio ymateb yn Gymraeg. Yn ôl y cwmni, ni fydd yr un gwasanaeth yn bosib mewn perthynas â chyfathrebu ar lafar.

Roedd cwmni arall yn adrodd bod cytundeb mewn lle gyda chwmni cyfieithu Cymraeg sydd yn gallu darparu cymorth, naill ai trwy gyfieithu gohebiaeth neu drwy ddarparu ymateb ysgrifenedig trwy gyfrwng y Gymraeg. Nododd y cwmni bod o leiaf un aelod o staff yn gallu darparu gwasanaethau Cymraeg ar ran y tîm cyswllt cwsmeriaid, materion cyhoeddus a thimoedd datblygiadau masnachol.

### Casgliadau

Mae pob cwmni yn gwneud y weithgaredd dan sylw, ond adroddodd un cwmni bod anfon gohebiaeth at nifer o bobl yr un pryd yn amherthnasol. Roedd un cwmni yn defnyddio peth Cymraeg wrth anfon gohebiaeth yn uniongyrchol at unigolyn. Roedd dau allan o bedwar yn defnyddio peth Cymraeg wrth ymateb i ohebiaeth Gymraeg a dderbyniwyd a daugwmni yn anfon gohebiaeth at nifer o bobl ar yr un pryd trwy gyfrwng y Gymraeg

### Gweithgaredd 2.5: Galwadau ffôn, llinellau cymorth a chanolfannau galwadau

Rhannwyd yr adran ar alwadau ffôn, llinellau cymorth a chanolfannau galwadau yn bedair rhan sef:

- ateb galwadau ffôn cyffredinol
- llinell ffôn archebu tocynnau
- neges peiriant ateb
- gwneud galwadau ffôn

Dyma grynodedb o'r atebion:

	Dwyieithog neu Gymraeg yn unig	Saesneg gyda pheth Cymraeg	Saesneg yn unig	Ddim yn berthnasol
Ateb galwadau ffôn cyffredinol	2	0	2	0
Llinell ffôn archebu tocynnau	0	0	4	0
Neges peiriant ateb	0	0	3	1
Gwneud galwadau	2	0	2	0



ffôn				
------	--	--	--	--

## 2.6 Sylwadau pellach

Roedd un cwmni yn adrodd bod galwadau i'r gwasanaeth Cysylltiadau Cwsmeriaid yn cynnig y cyfle i gynnal y sgwrs trwy gyfrwng y Gymraeg. Pe bai angen galwad yn ôl, yna mae'n bosib fydd y galwad ond ar gael yn Saesneg. Mae galwadau i'r tîm gwerthu dros y ffôn ar gael yn Saesneg yn unig, mae'r tîm hwn yn seiliedig dramor. Yn ôl y cwmni, bydd galwadau i'r pencadlys yn derbyn ymateb Saesneg fel arfer ond byddant yn ceisio dod o hyd i siaradwr Cymraeg os yn bosib.

Cyfeiriodd cwmni arall at gytundeb gyda chwmni cyfieithu a'r gallu i ymateb i alwadau neu ddychwelyd galwadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Cyfeiriwyd eto at yr aelod o staff sy'n cynnig cymorth i dimoedd wrth ddarparu gwasanaethau Cymraeg ond bod angen gwneud trefniadau o flaen llaw er mwyn darparu'r cymorth. Honnir na dderbyniwyd unrhyw alwadau yn y Gymraeg gan y tîm yn ystod 2015-16. Derbyniwyd un llythyr yn Gymraeg yn ystod yr un cyfnod a derbyniodd y cwmni un cyswllt dros y cyfryngau cymdeithasol.

### Casgliadau

Roedd pob cwmni'n gwneud y weithgaredd, ond adroddodd un cwmni nad oedd yn defnyddio peiriannau ateb. Roedd dau gwmni yn ateb galwadau ffôn cyffredinol a gwneud galwadau ffôn yn ddwyieithog, Cymraeg yn unig neu gyda pheth Cymraeg. Nid oes unrhyw gwmni yn cynnig llinell ffôn archebu tocynnau a pheiriant ateb trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ymddengys o'r ymatebion bod modd i gwsmeriaid gysylltu dros y ffôn â'r cwmnïau yma mewn amryw o ffyrdd e.e. i ganolfan alwadau dramor. Dylai Gweinidogion Cymru ystyried hyn wrth bennu rheoliadau mewn perthynas â galwadau ffôn i gorff ac oddi wrth gorff a gwneud darpariaeth am y mathau amrywiol hyn o linellau ffôn.

### Gweithgaredd 2.7: Cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus

Rhannwyd yr adran ar gyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus yn ddwy ran sef:

- cynnal cyfarfodydd gydag un neu fwy o aelodau o'r cyhoedd
- cynnal digwyddiadau sy'n agored i'r cyhoedd

Dyma grynodedb o'r atebion:

	Yn Gymraeg neu'n ddwyieithog bob tro	Saesneg gyda pheth Cymraeg	Saesneg yn unig	Ddim yn berthnasol
Cynnal cyfarfodydd gydag un neu fwy o aelodau o'r cyhoedd	0	2	2	0
Cynnal digwyddiadau sy'n agored i'r cyhoedd	0	2	2	0



## 2.8 Sylwadau pellach

Nododd un cwmni bod y gwasanaeth Cymraeg a gynigir wrth ystyried cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus yn amrywio yn ddibynnol ar argaeledd siaradwyr Cymraeg.

Nododd cwmni arall nad oedd gan y cwmni unrhyw rheolwyr oedd yn gallu siarad Cymraeg felly ni allant ddarparu'r gwasanaethau yn Gymraeg. Pe bai angen cynnig gwasanaethau dwyieithog fel rhan o gyfarfod neu ddigwyddiad cyhoeddus yna byddai'r cwmni yn ceisio darparu gan ddefnyddio asiantaeth allanol. Yn ôl y cwmni, nid yw'r angen i ddarparu gwasanaethau Cymraeg wedi codi hyd yn hyn.

Eglurodd cwmni arall bod rheolwr y cwmni ar gyfer Cymru yn gallu siarad Cymraeg a Saesneg. Dyma'r swyddog fydd yn mynychu digwyddiadau cyhoeddus. Mae rheolwr datblygu'r cwmni sydd hefyd yn mynychu digwyddiadau cyhoeddus yn dysgu Cymraeg.

### Casgliadau

Roedd pob cwmni yn gwneud y weithgaredd. Eglurodd 2 gwmni eu bod yn defnyddio peth Cymraeg wrth gynnal cyfarfodydd gydag un neu fwy o aelodau'r cyhoedd neu ddigwyddiadau sy'n agored i'r cyhoedd.

## 2.9 Cyhoeddusrwydd, hysbysebu a dangos deunyddiau yn gyhoeddus

Rhannwyd yr adran ar gyhoeddusrwydd, hysbysebu a dangos deunyddiau yn gyhoeddus yn naw adran sef:

- amserlenni
- tocynnau
- cardiau / pasys teithio
- posterï
- datganiadau i'r wasg
- gwybodaeth iechyd a diogelwch
- rheolau teithio
- hysbysiad o newid i wasanaeth
- cyhoeddiadau

Dyma grynodeb o'r atebion:

	Yn Gymraeg neu'n ddwyieithog bob tro	Saesneg gyda pheth Gymraeg	Saesneg yn unig	Ddim yn berthnasol
Amserlenni	1	1	2	0
Tocynnau	0	1	3	0
Cardiau / Pasys	0	0	4	0
Posterï	1	1	2	0

Datganiadau i'r wasg	0	2	2	0
Gwyb iechyd a diogel	1	1	1	1
Rheolau teithio	0	1	3	0
Hysbysiad o newid i lwybr neu daith	1	1	2	0
Cyhoeddiadau	1	1	2	0

## 2.10 Sylwadau pellach

Nododd un cwmni bod gwybodaeth ynglŷn â newid amserlenni sydd i'w hystyried fel rhan o gynlluniau hir dymor yn cael ei argraffu yn ddwyieithog. Mae'r cwmni yn teimlo nad yw'n bosibl darparu gwybodaeth yn ddwyieithog pan fydd achosion arbennig yn codi e.e. amhariad i wasanaethau gwybodaeth sydd ar gael yn electronig trwy ffynonellau fel ffonau clyfar a thabledi. Mae'r cwmni yn nodi bod gwasanaethau gwybodaeth ar gyfer trenau, tocynnau a gwasanaethau masnachol yn cael eu rhedeg yn seiliedig ar fas data ar gyfer y Deyrnas Unedig sydd ond ar gael yn Saesneg.

Nododd cwmni arall fod ei wybodaeth gyhoeddus a chyhoeddusurwydd yn cael ei gynhyrchu ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan ac ar gyfer rhwydwaith cyfan y cwmni. Yn Saesneg yn unig bydd y cwmni yn cynhyrchu'r wybodaeth.

Adroddodd cwmni arall bod rheolwr ar gyfer Cymru yn gallu siarad ac ysgrifennu yn Gymraeg. Roedd hyn yn galluogi'r cwmni i gynnig cyfweiliadau i'r wasg yn Gymraeg a chynorthwyo wrth gynnal digwyddiadau ar gyfer rhanddeiliaid a chymunedau. Roedd y cwmni'n datgan bod hyn yn bwysig wrth weithio mewn partneriaeth ag eraill ac wrth ymgynghori ar welliannau neu newidiadau. Yn ychwanegol, roedd y cwmni yn sicrhau bod unrhyw ddigwyddiadau a gynhelir yng Nghymru gan gynnwys Sioe Frenhinol Cymru yn cael eu cynnal yn gyfan gwbl ddwyieithog. Mae siarter teithwyr, polisi amddiffyn pobl anabl a pholisi delio â chwynion y cwmni ar gael yn y Gymraeg ar gais.

### Casgliadau

Roedd 2 allan o'r 4 cwmni yn cynnig amserlenni, poster, datganiadau i'r wasg, gwybodaeth iechyd a diogelwch, hysbysiau o newid o wasanaeth a chyhoeddiadau yn ddwyieithog, Cymraeg yn unig neu gyda pheth Gymraeg.

Roedd 1 cwmni yn cynnig rheolau teithio a thocynnau yn cynnwys peth Cymraeg. Nid oedd unrhyw gwmni yn cynnig cardiau teithio yn Gymraeg.

## 2.11 Llunio a chyhoeddi ffurflenni

Rhannwyd yr adran ar lunio a chyhoeddi ffurflenni yn dair rhan sef:

## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 8: personau sy'n darparu gwasanaethau rheilffyrdd i'r cyhoedd

- ffurflen gwyno
- ffurflen eiddo coll
- ffurflen gofrestru ar gyfer e.e. tocyn tymor

Dyma grynodedb o'r atebion:

	Yn Gymraeg neu'n ddwyieithog bob tro	Saesneg gyda pheth Cymraeg	Saesneg yn unig	Ddim yn berthnasol
Ffurflen gwyno	0	0	2	2
Ffurflen eiddo coll	1	0	3	0
Ffurflen gofrestru ar gyfer e.e. tocyn tymor	0	0	3	1

### Casgliadau

Dim ond dau o'r cwmnïau oedd yn darparu ffurflenni cwyno. Yr unig ffurflen a oedd yn cael ei darparu'n Gymraeg oedd ffurflen eiddo coll gan un cwmni.

## 2.12 Gwefan, ar-lein a pheiriannau hunan wasanaeth

Rhannwyd yr adran ar wefan, ar-lein a pheiriannau hunan wasanaeth yn bedair ran sef:

- gwefan
- cyfryngau cymdeithasol e.e. Facebook neu Twitter
- peiriant hunan wasanaeth e.e. prynu tocynnau
- apiau e.e. ar y ffôn

Dyma grynodedb o'r atebion:

	Yn Gymraeg neu'n ddwyieithog bob tro	Saesneg gyda pheth Cymraeg	Saesneg yn unig	Ddim yn berthnasol
Gwefan	1	0	3	0
Cyfryngau cymdeithasol	0	2	2	0
Peiriant hunan	0	1	0	3

wasanaeth				
Apiau	0	0	4	0

### 2.13 Sylwadau pellach

Nododd un cwmni bod ei gwefannau yn cael eu cyfieithu cyn belled ag sy'n bosib o fewn cyfyngiadau technegol. Er enghraifft, eglurodd bod gwybodaeth 'amser real' yn cael ei weinyddu gan system sydd ond ar gael yn Saesneg. Bydd cyfryngau cymdeithasol yn dibynnu ar argaeledd staff sy'n siarad Cymraeg. Bydd peiriannau gwerthu tocynnau newydd yn cynnwys opsiwn ar gyfer gwasanaeth Cymraeg. Nodwyd bod nifer sylweddol o'r peiriannau yn cynnwys yr opsiwn yma yn barod.

Roedd cwmni arall yn nodi nad oedd gan y tîm cyfryngau cymdeithasol bob amser swyddogion sy'n gallu siarad Cymraeg, ond bod y cwmni yn ceisio ymateb yn briodol gan ddefnyddio'r gwasanaeth cyfieithu allanol. Aeth y cwmni ymlaen i nodi bod natur 'ar unwaith' Twitter yn arwain at anhawster wrth gyflwyno ymatebion prydlon yn Gymraeg. Nododd bod Facebook yn peri llai o anhawster o ran hynny. Nododd y cwmni nad oedd ganddo unrhyw beiriannau gwerthu tocynnau yng Nghymru, bod cwmni arall yn darparu'r gwasanaeth ar ei ran.

#### Casgliadau

Roedd un cwmni yn egluro ei fod yn cynnig gwefan yn Gymraeg neu'n ddwyieithog bob tro.

Roedd un cwmni yn cynnig peth Cymraeg ar beiriannau hunan wasanaeth. Dylid nodi bod tri cwmni wedi nodi bod peiriannau hunan wasanaeth yn amherthnasol iddynt gan bod y gwasanaeth ar y cyfan wedi ei is contractio i gwmni arall.

Nid oedd yr un cwmni yn cynnig darpariaeth Gymraeg drwy apiau ar ffôn symudol.

### 2.14 Arwyddion

Rhannwyd yr adran arwyddion yn ddwy ran sef:

- arwyddion gorsaf drên
- hysbysiad / sgrin sy'n dangos safle nesaf ar y trên

Dyma grynodedb o'r atebion:

	Yn Gymraeg neu'n ddwyieithog bob tro	Saesneg gyda pheth Gymraeg	Saesneg yn unig	Ddim yn berthnasol
Arwyddion	1	0	0	3

Hysbysiad sgrin	2	0	2	0
-----------------	---	---	---	---

Nododd tri cwmni nad oeddent yn darparu arwyddion. Er hynny, yn ôl dehongliad y Comisiynydd o arwyddion, mae'n ymddangos bod arwyddion o bob math yn cael eu harddangos ar drenau. Darparwyd rhai sylwadau pellach gan y cwmnïau fel y nodir isod.

## 2.15 Sylwadau pellach

Nododd un cwmni bod trenau dosbarth 158 a 175 yn cynnig arwyddion LED ddwyieithog. Aeth y cwmni ymlaen i nodi nad oedd unrhyw ddosbarth eraill o drenau oedd ganddynt yn cynnig arwyddion LED o unrhyw fath.

Nododd cwmni arall bod pob un o'r trenau oedd ganddynt yn cynnig gwybodaeth i gwsmeriaid yn Saesneg gan gynnwys enw Cymraeg y gorsafoedd fel rhan o gyfieithiad Saesneg. Nid yw'r cwmni yn rheoli unrhyw orsafoedd, arwyddion na gwybodaeth i deithwyr. Bydd y cwmni sy'n cynnal y gorsafoedd yn cymryd cyfrifoldeb dros y wybodaeth yma.

Nododd cwmni arall nad oedd ganddynt gyfrifoldeb dros gynnal unrhyw orsafoedd yng Nghymru, nodwyd mai cwmni arall oedd yn gyfrifol am gynnal y gorsafoedd. Nid oedd trenau'r cwmni oedd yn weithredol yng Nghymru yn darparu unrhyw arwyddion gwybodaeth electronig i gwsmeriaid.

### Casgliadau

Roedd un cwmni yn cynnig arwyddion gorsaf drên yn Gymraeg neu'n ddwyieithog bob tro. Nododd y tri arall bod hyn yn amherthnasol iddynt hwy. Mae'r cwmni sy'n darparu arwyddion gorsaf drên yn Gymraeg neu'n ddwyieithog bob tro yn gweithredu ar ran cwmnïau eraill.

Roedd dau o'r cwmnïau yn cynnig hysbysiad / sgrin sy'n dangos safle nesaf y trên yn Gymraeg neu'n ddwyieithog bob tro.

Mae'r cwmnïau yn defnyddio cyfuniad o arwyddion sefydlog ac arwyddion electronig er mwyn arddangos gwybodaeth.

Dylai Gweinidogion Cymru ystyried yr angen i sicrhau bod unrhyw reoliadau mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir gan gorff yn mynd i'r afael â'r gwahanol fathau o arwyddion a ddefnyddir gan gwmnïau trenau yng Nghymru.

## 2.16 Systemau annerch cyhoeddus

Rhannwyd yr adran ar systemau annerch cyhoeddus yn ddwy ran sef:

- cyhoeddiadau mewn gorsaf drenau
- cyhoeddiadau ar y trên e.e. yr orsaf nesaf

Dyma grynodedb o'r atebion:

## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 8: personau sy'n darparu gwasanaethau rheilffyrdd i'r cyhoedd

	Yn Gymraeg neu'n ddwyieithog bob tro	Saesneg gyda pheth Cymraeg	Saesneg yn unig	Ddim yn berthnasol
Cyhoeddiadau mewn gorsaf	0	2	0	2
Cyhoeddiadau ar y trê	0	1	3	0

### 2.17 Sylwadau pellach

Nododd un cwmni bod problemau meddalwedd yn cyfyngu ar eu gallu i ehangu ar ddefnydd o'r Gymraeg.

Cyfeiriodd cwmni arall at y sylw a wnaethpwyd eisoes sef nad yw'r cwmni yn gweithredu unrhyw orsafoedd yng Nghymru. Aeth y cwmni ymlaen i ychwanegu bod ei gwasanaethau yn rhedeg ar draws ffiniau: nid yw'r cwmni'n darparu unrhyw wasanaeth trê lle bydd cychwyn a diwedd y daith yng Nghymru.

#### Casgliadau

Roedd dau gwmni yn gwneud cyhoeddiadau sain mewn gorsaf drenau yn Saesneg gyda pheth Gymraeg. Roedd un cwmni yn cynnig cyhoeddiadau sain ar drenau yn Saesneg gyda pheth Gymraeg.

### 2.18 Derbyn ymwelwyr

Rhannwyd yr adran ar dderbyn ymwelwyr yn dair rhan sef:

- derbyn ymwelwyr i safle sy'n agored i'r cyhoedd e.e. derbynfa swyddfa
- desgiau gwybodaeth
- safle gwerthu tocynnau

Dyma grynodedb o'r atebion:

	Yn Gymraeg neu'n ddwyieithog bob tro	Saesneg gyda pheth Gymraeg	Saesneg yn unig	Ddim yn berthnasol
Derbyn ymwelwyr i safle sy'n agored i'r cyhoedd e.e. derbynfa swyddfa	0	1	3	0
Desgiau gwybodaeth	0	1	0	3

## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 8: personau sy'n darparu gwasanaethau rheilffyrdd i'r cyhoedd

Safle gwerthu tocynnau	0	1	0	3

### 2.19 Sylwadau pellach

Nododd un cwmni bod ei allu i ddarparu staff sy'n siarad Cymraeg yn ddibynnol ar leoliad ac argaeledd staff.

Nododd cwmni arall bod trefniadau ar gyfer cwrdd â'r cyhoedd ond ar gael yn y pencadlys y tu allan i Gymru.

Cyfeiriwyd eto at y trefniadau lle bydd rhai cwmnïau yn darparu gwasanaethau gwybodaeth a gwerthu tocynnau ar ran cwmnïau eraill.

#### Casgliadau

Roedd un cwmni yn cynnig gwasanaeth Saesneg gyda pheth Gymraeg i ymwelwyr i safleoedd sy'n agored i'r cyhoedd (e.e. derbynfa). Roedd y cwmni hefyd yn cynnig gwasanaeth Saesneg gyda pheth Gymraeg ar ddesgiau gwybodaeth a safleoedd gwerthu tocynnau.

Roedd tri allan o'r pedwar yn nodi nad oedd desgiau gwybodaeth na gwerthu tocynnau yn wasanaethau a gynigir yn uniongyrchol ganddynt hwy ond bod trydydd parti yn darparu ar eu rhan.

Roedd y cwmni sydd yn cynnig gwasanaethau derbyn ymwelwyr yn Saesneg gyda pheth Cymraeg yn cynnig y gwasanaeth ar ran cwmnïau eraill hefyd.

### 2.20 Cyrsiau

Gofynnwyd i'r cwmnïau adrodd ar unrhyw gyrsiau neu hyfforddiant oedd yn cael eu trefnu ganddynt ar gyfer y cyhoedd e.e. seminar neu weithdy. Nododd pob cwmni nad oedd y weithgaredd yn berthnasol iddynt.

### 2.21 Brand a hunaniaith corfforaethol

Gofynnwyd i'r cwmnïau adrodd ar eu brand a hunaniaith corfforaethol.

Adroddodd un cwmni bod ei frand a hunaniaith corfforaethol yn Gymraeg neu'n ddwyieithog bob tro, roedd y ddau arall a ymatebodd yn adrodd bod brand a hunaniaith corfforaethol y cwmni yn Saesneg yn unig.

### 2.22 Sylwadau pellach

Yn ôl un cwmni oedd â brand a hunaniaeth uniaith Saesneg, 35 o'r 298 o deithiau dyddiol sydd yng Nghymru.

Adroddodd cwmni arall bod bwydlen dosbarth cyntaf y cwmni yn cael ei arddangos trwy gyfrwng y Gymraeg.

### 2.23 Ydych chi'n cynnig unrhyw wasanaethau eraill?

## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 8: personau sy'n darparu gwasanaethau rheilffyrdd i'r cyhoedd

Nododd dau gwmni nad oeddynt yn cynnig unrhyw wasanaethau eraill ychwanegol, tu hwnt i'r gweithgareddau a restrwyd yn yr holiadur.

Cyfeiriodd un cwmni at ei fodlonrwydd i ddarparu gwasanaeth Cymraeg mewn digwyddiadau ar gyfer rhanddeiliaid pe bai angen.

### 2.24 Cynnig y gwasanaethau hynny'n Gymraeg

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau pellach i'r cwestiwn ynglŷn â gwasanaethau eraill.

### 2.25 Codi ymwybyddiaeth cwsmeriaid o wasanaethau Cymraeg

Roedd un cwmni yn cyfeirio at ddarpariaeth nwyddau iaith Gwaith i'r staff er mwyn dynodi siaradwyr Cymraeg. Mae'r ganolfan alwadau yn cynnig opsiwn i ddewis gwasanaeth Cymraeg ac mae gan y wefan fotwm 'Cymraeg' er mwyn dewis y tudalennau Cymraeg.

Nododd cwmni arall nad oedd yn cynnig unrhyw wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o'r bryd ac, o'r herwydd, nid ydynt yn codi ymwybyddiaeth.

Eglurodd un cwmni bod pob gweithiwr sy'n delio gyda chwsmeriaid ac sy'n gallu siarad Cymraeg (neu unrhyw iaith arall ar wahân i Saesneg) yn dangos baner Cymru (neu faner priodol) ar fathodyn gwaith er mwyn dynodi'r ieithoedd a siaradir.

## Adran 3: Cadw Cofnodion

### 3.1 Gofynnwyd a oedd cwmnïau yn cadw cofnodion o'r isod:

- sgiliau staff
- ceisiadau am wasanaeth cyfrwng Cymraeg
- y sgiliau sydd angen ar gyfer swyddi penodol wrth recriwtio
- unrhyw gwynion a dderbyniwyd gennych

Dyma grynodedb o'r atebion:

	Ydyn	Nac ydyn
Sgiliau iaith staff	2	2
Ceisiadau am wasanaeth cyfrwng Cymraeg	0	4
Y sgiliau sydd angen ar gyfer swyddi penodol	2	2
Unrhyw gwynion a dderbyniwyd gennych	3	1



### 3.2 Sylwadau pellach

Nododd un cwmni nad oedd yn cadw cofnod o sgiliau staff. Mae cofnod ganddo o'r nifer o gwynion am ei wasanaethau Cymraeg. Mae hysbysebion ar gyfer swyddi yn dynodi bod y Gymraeg yn ddymunol.

Nododd cwmni arall nad oedd ganddo bolisi ar gyfer holi staff am eu dewis iaith, ni fydd yn holi fel rhan o'r cyfweiliad na wrth gychwyn swydd. Mae bas data ar gyfer staff yn cynnwys adran lle gellir dynodi prif iaith swyddog. Gwneir hyn ar sail wirfoddol. Mae'r cwmni yn cadw cofnod o'r nifer o gwynion a dderbyniwyd ond nid oes cofnod o ba iaith y cyflwynwyd cwyn.

Nododd un cwmni bod trefniadau mewn lle i gadw cofnod o sgiliau iaith staff sy'n delio'n uniongyrchol â chwsmeriaid.

#### **Casgliadau**

Roedd gan dau o'r pedwar cwmni drefniadau mewn lle i gadw cofnod o sgiliau iaith y staff, ond nid oedd unrhyw gwmni yn adrodd bod trefniadau mewn lle i fesur ceisiadau am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd.

Roedd dau gwmni yn adrodd bod trefniadau mewn lle i asesu'r sgiliau Cymraeg sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni swyddogaethau.

Nododd tri allan o'r pedwar cwmni bod trefniadau mewn lle i fesur y nifer o gwynion mewn perthynas â gwasanaethau Cymraeg a gyflwynwyd i'r corff.

## 5 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd

Derbyniwyd 264 o ymatebion gan aelodau'r cyhoedd i'r ymchwiliadau. Derbyniwyd 65 o ymatebion i'r ymchwiliad safonau gan unigolion a ddewisodd gwblhau holiadur a ddarparwyd ar eu cyfer gan Gomisiynydd y Gymraeg ar y wefan.

Derbyniwyd 199 ymateb pellach yn seiliedig ar dempled o ymateb safonol a gyhoeddodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg; yn yr achos hwn roedd yr holl ymatebion yr un fath.

Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr a oedd yn fodlon i'w henwau gael eu cyhoeddi yn Atodiad A.

Mae'r tabl isod yn dangos o ble daeth yr ymatebwyr yn ôl eu lleoliad daearyddol.

**Nifer yr ymatebion i'r ymchwiliad safonau yn ôl lleoliad<sup>2</sup>**

Lleoliad	Nifer	Canran (%)
Abertawe	6	2.3
Blaenau Gwent	3	1.1
Bro Morgannwg	6	2.3
Caerffili	4	1.5
Casnewydd	3	1.1
Castell-nedd Port Talbot	6	2.3
Ceredigion	22	8.4
Conwy	11	4.2
Caerdydd	33	12.6
Gwynedd	84	32.6
Merthyr Tudful	5	2
Pen-y-bont ar Ogwr	1	0.4
Powys	8	3
Rhondda Cynon Taf	7	2.3

<sup>2</sup> Mae'r ystadegau hyn yn cynnwys yr holl ymatebion a ddaeth drwy'r holiadur, ynghyd â thempled Cymdeithas yr Iaith Gymraeg.

## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 8: personau sy'n darparu gwasanaethau rheilffyrdd i'r cyhoedd

Lleoliad	Nifer	Canran (%)
Sir Benfro	4	1.5
Sir Ddinbych	5	1.5
Sir Fynwy	2	0.8
Sir Gaerfyrddin	16	5.8
Sir y Fflint	2	0.4
Torfaen	1	0.4
Wrecsam	3	1.1
Ynys Môn	18	6.9
Tu allan i Gymru	11	4.2
Heb ateb	3	1.1
Cyfanswm	264	100%

### Safonau cyflenwi gwasanaethau


Wrth geisio barn y cyhoedd ar resymoldeb a chymesuredd y gofynion sydd ynghlwm â'r safonau cyflenwi gwasanaethau, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiwn isod yn yr holiadur:

'A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r gwasanaethau a ddaw o dan y categorïau uchod gael eu cynnig yn Gymraeg gan y cwmnïau isod?'

Wrth ateb y cwestiwn hwn yn rhan o'r holiadur, rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd ymateb fesul gweithgaredd sydd o fewn cwmpas safonau cyflenwi gwasanaethau.

Mae'r tabl isod yn dangos amrywiaeth yr ymatebion a gafwyd:

### Rheilffyrdd: ymatebion y cyhoedd




## Safonau Cadw Cofnodion

Wrth geisio barn y cyhoedd ar resymoldeb a chymesuredd y gofynion sydd ynghlwm â'r safonau cadw cofnodion, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiwn isod yn yr holiadur:

'A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r gwasanaethau a ddaw o dan y categorïau uchod gael eu cynnig yn Gymraeg gan y cwmnïau isod?'

O'r 66 ymateb a gafwyd drwy'r holiadur ar wefan y Comisiynydd, atebodd 63 y cwestiwn hwn, gydag 87% (55) yn cytuno y dylai'r ddyletswydd hon gael ei gosod ar y personau perthnasol dan sylw.

Dengys y tablau isod sut yr ymatebodd aelodau'r cyhoedd i'r cwestiwn hwn:



## Sylwadau pellach

Yn ogystal â darparu ymatebion i gwestiynau penodol ar bwnc yr ymchwiliad safonau, rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd nodi unrhyw safonau ychwanegol yr oeddynt o'r farn y dylid eu pennu a'u gwneud yn benodol gymwys i'r personau perthnasol dan sylw, ynghyd ag unrhyw sylwadau pellach a oedd yn berthnasol i'r ymchwiliad safonau hwn.

## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 8: personau sy'n darparu gwasanaethau rheilffyrdd i'r cyhoedd

O'r 66 ymatebodd drwy'r holiadur ar wefan y Comisiynydd, darparodd 29% (19) ohonynt sylwadau ychwanegol i'w hystyried gan Gomisiynydd y Gymraeg yn rhan o'r ymchwiliad safonau.

Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn gyffredinol gefnogol i'r cysyniad o bennu safonau, a hynny er mwyn sicrhau hawliau clir i siaradwyr Cymraeg mewn perthynas â'r gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gwmnïau trenau.

Mynegwyd gryn awydd gan y cyhoedd i sicrhau bod y safonau a gaiff eu pennu yn rhai a fydd yn cael effaith ar fywydau pob dydd pobl gyffredin. Mae'r hyn y mae'r cyhoedd yn ei weld a'i glywed wrth ddefnyddio gwasanaethau trên yn bwysig iddynt a'r gwaith papur mewnol yn cymryd llai o flaenoriaeth.

Amlinellir isod brif themâu'r ymatebion a dderbyniwyd a oedd o blaid gwneud y safonau'n benodol gymwys:

- yr angen i sicrhau bod pob cwmni yn darparu gwasanaethau Cymraeg drwyddi draw yn ddiodyn i'w teithwyr ac yn gefnogol o ddewis iaith y teithiwr.
- yr angen i sicrhau bod safonau mewn perthynas â gwasanaeth wyneb i wyneb yn mynd tu hwnt i brif dderbynfeydd a chyfarfodydd.
- sicrhau bod yr holl broses o brynu, derbyn a gwirio tocynnau'n gallu cael ei wneud yn Gymraeg
- yr angen am wasanaethau Cymraeg ar-lein ac am beiriannau hunanwasanaeth Cymraeg
- sicrhau bod yr hyn a glywir ac a welir, gan y cyhoedd wrth ddefnyddio gwasanaethau trên, i fod yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf a bod hynny i gynnwys meysydd parcio'r gorsafoedd

Ar y cyfan ni dderbyniwyd gwrthwynebiad gref i ddyletswyddau iaith gan y cyhoedd.

Amlinellir prif themâu'r ymatebion a dderbyniwyd gan y cyhoedd a oedd yn erbyn gwneud safonau'n benodol gymwys isod:

- teimlo'r angen i gyhoeddi'r Saesneg yn gyntaf wrth hysbysu'r cyhoedd o newid sydyn mewn gwasanaethau
- anghytuno â'r gofyniad y dylid cadw cofnodion yn Gymraeg
- anghytuno i gynnal cyfarfodydd a chyrsiau yn ddwyieithog eisiau iddynt gael eu cynnal ar wahân; yn Saesneg a Chymraeg yn ôl y galw

Ar y cyfan yr oedd mwyafrif helaeth o'r ymatebion a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd yn cytuno y dylid sicrhau bod cwmnïau trenau yn ddarostyngedig i'r safonau cyflenwi gwasanaeth. Cafwyd ymateb ar sail adroddiad gan Grŵp Hawliau Cymdeithas yr Iaith a gan aelodau'r Gymdeithas a ddanfododd e-bost ar sail templed. Yr oedd yr adroddiad a'r holiaduron a dderbyniwyd gan aelodau'r Gymdeithas yn nodi'n amlwg y dylid gwneud darparwyr trenau'n ddarostyngedig i bob safon yn y grŵp Safonau Cyflenwi Gwasanaethau.

Yr oedd mwyafrif llethol o'r ymatebwyr o'r farn y dylai cwmnïau trenau yng Nghymru ohebu yn Gymraeg. Datganodd nifer o'r ymatebwyr siom eu bod eisoes wedi derbyn gohebiaeth uniaith Saesneg gan gwmnïau trenau, ac nad oes opsiwn i dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg.

## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 8: personau sy'n darparu gwasanaethau rheilffyrdd i'r cyhoedd

Mae'n ddyletswydd ar gwmnïau trafniadaeth i gefnogi dewis iaith teithwyr ac yn hawl ieithyddol sylfaenol i berson dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg yng Nghymru oedd barn ymatebwr arall. Er hynny, yr oedd un ymatebwr yn credu ei bod hi'n deg i gwmnïau trenau ymateb yn Gymraeg i ohebiaeth Gymraeg ond nid oedd yr ymatebwr yn cytuno gyda gohebu'n ddwyieithog.

Wrth ystyried safonau mewn perthynas â galwadau ffôn, llinellau cymorth a chanolfannau galwadau yr oedd nifer llethol o'r ymatebwyr o'r farn y dylai'r gwasanaethau hyn fod ar gael yn Gymraeg. Yr oedd un ymatebwr o'r farn bod angen sicrhau gwellhad yng ngwasanaethau dwyieithog presennol yn ogystal: 'The standard of those existing services that are bilingual also needs to be improved.' Awgrymodd ymatebwr arall bod angen monitro'r llinellau ffôn dwyieithog i sicrhau eu bod yn gweithio. Cred ymatebwr arall y dylai bod rhifau ffôn gwahanol ar gyfer llinell ffôn Gymraeg a llinell ffôn Saesneg.

Yr oedd un ymatebwr yn cytuno y dylai unigolion Cymraeg eu hiaith fedru sgwrsio'n Gymraeg ar y ffôn, ond byddai'n anhapus gorfod dewis ym mha iaith y byddai eisiau parhau gyda'i alwad: 'I agree that Welsh speaking callers should be answered in Welsh, but I would be unhappy if I had to put up with bilingual greetings, or had 'Press 1 for English, 2 for Welsh' options to negotiate.' Mae sylw gan ymatebydd arall ar y pwynt hwn :

'Fe ddylai symud i ffwrdd o canolfannau (sic) galw defnyddio 1 for Welsh 2 for English ond yn hytrach bo'r staff yn ddwyieithog ac felly'n medru ymdrin yn naturiol yn y ddwy iaith. Dyna ddigwyddodd wrth sefydlu Traveline ym Mhenrhyndeudraeth ac o ganlyniad cynyddodd nifer y trafodaethau trwy gyfrwng y Gymraeg dros nos.'

Yr oedd mwyafrif o'r ymatebwyr o'r farn y dylai cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus gael eu cynnal yn ddwyieithog neu Gymraeg. Nododd un ymatebwr y dylai cyfarfodydd cyhoeddus gael eu cynnal yn Saesneg yn unig, ond cred ei bod hi'n deg i gyfarfodydd personol gael eu cynnal yn Gymraeg pe byddai'r unigolyn eisiau hynny. Yr oedd ymatebwr arall o'r farn y dylai cyfarfodydd cyhoeddus gael eu cynnal yn Gymraeg, yn enwedig yn yr ardaloedd ble mae'r Gymraeg yn ffynnu. Ategodd ymatebwr arall y dylai'r cyfarfodydd gael eu cynnal yn Gymraeg oherwydd bod person yn gallu mynegi ei hun yn well yn ei iaith gyntaf.

Yr oedd mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr eto o'r farn y dylai cyhoeddusrwydd, hysbysebu a dangos deunydd yn gyhoeddus gael ei wneud yn ddwyieithog neu Gymraeg yn unig. Derbyniwyd cryn feirniadaeth nad oedd hyn yn digwydd eisoes gyda nifer o sylwadau megis 'nid yw hyn yn anodd mewn unrhyw ffordd' a 'dylai fod' yn adlewyrchu'r teimlad cyffredinol.

Derbyniwyd nifer o bryderon ynghylch tocynnau. Credai'r mwyafrif y dylai tocynnau fod yn ddwyieithog neu Gymraeg yn unig, yn enwedig wrth nodi enwau llefydd ar docynnau. Nododd un ymatebydd y dylai enwau gorsafoedd gael eu nodi yn Gymraeg yn unig ar docynnau. Yr oedd nifer hefyd o'r farn y dylai'r cyhoedd fedru prynu eu tocynnau wyneb yn wyneb yn Gymraeg. Aeth ymatebydd arall ymlaen i nodi, 'I can see big problems if staff, e.g. selling tickets, cannot speak Welsh.' Yr oedd un ymatebwr am i enwau lleoedd y tu allan i Gymru gael eu harddangos yn Gymraeg: 'e.e. Caer/ Amwythig'.

Yr oedd mwy nac un ymatebwr am weld slipiau cadw seddi ar drenau yn ddwyieithog neu Gymraeg ac ymatebwr arall am weld cardiau gostyngiad a tocynnau tymor dwyieithog, gyda'r Gymraeg flaenaf. Yr oedd ymatebwr arall o'r farn y dylai hysbysiadau, amserlenni a phasys gael eu cynhyrchu ar wahân wrth i brintiau dwyieithog fod yn 'heavy work to read'. Ond ar y llaw arall yr oedd un ymatebwr o'r farn bod defnyddio'r Gymraeg wrth ymdrin â



## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 8: personau sy'n darparu gwasanaethau rheilffyrdd i'r cyhoedd

chyhoedduswydd, hysbysebu a dangos deunydd yn gyhoeddus o fudd mawr i bobl ag anghenion dysgu.

Yr oedd nifer o'r farn y dylai ffurflenni gael eu llunio a'u cyhoeddi yn ddwyieithog neu'n uniaith Gymraeg. Nododd un ymatebydd y dylai ffurflenni Cymraeg a Saesneg fod ar gael ar wahân gan bod ffurflenni dwyieithog yn wastraff ar bapur ac yn anodd i'w deall. Yr oedd un ymatebydd o'r farn y dylai'r ffurflenni Cymraeg neu ddwyieithog fod ar gael ar wefannau'r cwmnïau hefyd. Yr oedd Cymdeithas yr Iaith yn nodi y dylid sicrhau bod taflenni a llyfrynau gwybodaeth hefyd ar gael yn ddwyieithog ac y dylai fersiynau Cymraeg fod ar gael yn ddiofyn.

Wrth ystyried gwefannau a gwasanaethau ar-lein a ddarperir gan gwmnïau trenau, roedd cefnogaeth gref i gael yr rhain yn ddwyieithog neu Gymraeg yn unig. Yr oedd ymatebwr arall am dynnu sylw'r Comisiynydd at Euskotren.eus (rheilffyrdd Gwlad y Basg) am enghreifft wych o wefan ryngweithredol ddwyieithog. Nododd ymatebydd arall bod angen creu ap Cymraeg ar gyfer tabled a ffôn.

Cafwyd nifer o sylwadau pellach am brynu tocynnau ar-lein a pheiriannau hunanwasanaeth gan fynnu y dylai'r gwasanaethau hyn fod ar gael yn Gymraeg. Nododd un ymatebwr bod posibl prynu tocyn trê'n mewn 6 iaith ar beiriant hunanwasanaeth yng Nghymru, ond nad oedd y Gymraeg ymhlith y dewis. Y broblem a nodwyd fwyaf gan yr ymatebwyr oedd nad oedd gwefannau a pheiriannau hunanwasanaeth yn cydnabod enwau Cymraeg lleoedd a gwahanol fathau o docynnau. Nid oes modd prynu tocynnau ar-lein neu gyda pheiriant hunanwasanaeth yn Gymraeg am y tro oherwydd hyn. Yr oedd nifer hefyd wedi cael profiad annymunol iawn wrth geisio prynu tocyn yn Gymraeg ac yn teimlo eu bod wedi eu trin gyda dirmyg ac wedi eu ishelhau.

Yr oedd ymatebwyr am weld y Gymraeg yn cael ei defnyddio ar wefannau cymdeithasol y cwmnïau trenau y ogystal â'r adegau ble roddir cyngor a chymorth i deithwyr ar y rhwydweithiau cymdeithasol. Yr oedd un ymatebwr o'r farn bod cyfryngau cymdeithasol yn bwysicach, os rhywbeth, na'r wefan gorfforaethol.

Nododd mwyafrif o'r ymatebwyr eu bod o'r farn y dylai arwyddion a sgriniau fod yn ddwyieithog neu Gymraeg yn unig. Cafwyd pryderon mai uniaith Saesneg yw nifer o'r rhain yn bresennol, ac yn aml os yw'r arwyddion neu sgriniau yn ddwyieithog gwelir y Saesneg yn gyntaf. Yr oedd un ymatebwr o'r farn y dylid enwi gorsafoedd newydd yn Gymraeg yn unig. Yr oedd sicrhau cywirdeb enwau lleoedd Cymraeg a defnydd o iaith Gymraeg hygyrch wrth gyfieithu yn flaenoriaeth gan ymatebwyr.

Nododd un ymatebwr bod enwau Saesneg ar leoliadau yn gallu bod yn 'ddryslyd'. Yr oedd un ymatebydd o'r farn y dylid sicrhau bod arwyddion enwau sydd y tu allan i Gymru yn Gymraeg 'e.e. Caer/ Amwythig'. Yr oedd yr un ymatebydd hefyd o'r farn y dylid dangos pen taith trê'n, a manau yn y canol os yn berthnasol yn ddwyieithog ar flaen, a thu mewn y trê'n, ac ochr neu gefn y trê'n os yn berthnasol. Yr oedd ymatebwr arall yn cwestiynu pam nad yw hysbysebion fydd ar y trê'n yn gorfod dod o dan y safonau. Ar y llaw arall, yr oedd un ymatebwr o'r farn y dylai'r Saesneg ddod yn gyntaf ar sgriniau ac arwyddion gan mai Saesneg yw iaith y mwyafrif yn y wlad.

Nododd Cymdeithas yr Iaith yn eu hadroddiad y dylai pob arwydd fod yn ddwyieithog gan gynnwys rhai mewn gorsafoedd trenau ac ar y trenau eu hunain. Nodent hefyd y dylai'r safonau ynghylch arwyddion gyfeirio at bob arwydd nid arwyddion newydd yn unig. Ymhelaethwyd y dylai safonau ynghylch arwyddion gyfeirio at bob arwydd nid arwyddion newydd yn unig. Ymhelaethwyd ym mhellach y dylai safonau ynghylch arwyddion gynnwys

## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 8: personau sy'n darparu gwasanaethau rheilffyrdd i'r cyhoedd

sgriniau electronig ar gerbydau, sgriniau electronig mewn gorsafoedd trên ac arwyddion a dyluniad arwynebedd cerbydau (tu mewn a thu allan i'r trenau).

Yr oedd mwyafrif llethol o'r ymatebwyr o'r farn y dylai systemau annerch cyhoeddus fod yn ddwyieithog neu Gymraeg yn unig gydag un ymateb yn honni ei fod yn dangos amharch wrth beidio gwneud. Yr oedd Cymdeithas yr Iaith yn galw am sicrhau bod cyhoeddiadau sain ar drenau a gorsafoedd yn Gymraeg hefyd. Derbyniwyd canmoliaeth i'r cwmnïau sydd eisoes yn annerch y cyhoedd yn ddwyieithog ac un ymatebwr yn honni i'r system fod yn ymarferol ac effeithiol.

Yr oedd eraill yn pryderu am safon systemau annerch cyhoeddus presennol a'u hynganiadau. Nododd sawl ymatebydd eu siom yn ynganiadau presennol y cwmnïau, gyda'r term 'gwarthus' yn cael ei ddefnyddio gan ymatebwr arall i ddisgrifio agwedd cyffredinol yr ymatebwyr am safon y systemau annerch cyhoeddus ar hyn o bryd. Yr oedd hefyd yn gofyn i enwau llefydd gael eu hynganu yn gywir. Yr oedd ymatebwr arall o'r farn y byddai cyhoeddiadau Cymraeg yn cyfoethogi y profiad o deithio o amgylch y wlad. Datganodd un ymatebwr ei syndod o syleddoli nad oes cyhoeddiadau sain yn cael eu gwneud yn Gymraeg yn yr ardaloedd hynny sydd â chanran uwch o siaradwyr Cymraeg. Ymhellach, yr oedd ymatebwr arall yn gofyn i gael cyhoeddiadau dwyieithog y tu allan i Gymru, os yw'r trên ar y ffordd i Gymru, megis o brif orsafoedd megis Paddington yn Llundain, Birmingham a Chaer.

Yr oedd cael siaradwr rhugl Cymraeg i recordio'r negeseuon ar gyfer y systemau annerch cyhoeddus yn flaenoriaeth gan nifer o'r ymatebwyr. Mynegodd ymatebwr arall bod angen i unigolyn cymwys lleol adolygu a diweddarau'r enwau lleol yn rheolaidd i sicrhau bod yr enwau cywir yn cael eu defnyddio. Ar y llaw arall yr oedd un ymatebydd o'r farn y dylai'r cyhoeddiadau gael eu cyhoeddi yn Saesneg yn gyntaf. Aeth yr ymatebwr hwnnw ymlaen i nodi y dylai'r Saesneg gael ei defnyddio os oes newid munud olaf i sicrhau bod y mwyafrif yn deall y camau nesaf yn sydyn. Er hynny yr oedd ymatebydd arall o'r farn y dylai hysbysiadau iechyd a diogelwch fod yn ddwyieithog yn ogystal â hysbysiadau eraill ar uwch seinydd.

Yr oedd y mwyafrif o'r farn y dylid derbyn ymwelwyr yn ddwyieithog neu Gymraeg yn unig. Yr oedd un ymatebwr o'r farn y dylid cyfarch ymwelwyr yn Gymraeg yn gyntaf yng nghadarnleoedd y Gymraeg. Aeth ymatebwr arall ati i nodi y dylai swyddog tocynnau ym mhob rhan o Gymru allu cyfarch teithiwr mewn Cymraeg syml.

Yr oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn credu y dylai cyrsiau cael eu cynnig yn Gymraeg. Ond gwelwyd bod llond llaw o ymatebwyr yn anghytuno ac ychydig ddim yn gwybod y naill ffordd neu'r llall. Aeth un ymatebwr a oedd yn anghytuno cyn belled a dweud y byddai'n cerdded allan o gwrs pe byddai'n cael ei gynnal yn ddwyieithog, cyn mynd ymlaen i ddweud na fyddai ots ganddo i gyrsiau Cymraeg gael eu cynnal ar wahân:

'I would walk out of such courses if I found them being presented bilingually. I don't mind having separate Welsh courses.'

Yr oedd nifer helaeth o'r ymatebwyr o'r farn y dylai brand a hunaniaeth cwmnïau trenau fod yn ddwyieithog neu Gymraeg. Tuedda'r ymatebwyr i gredu y dylai hunaniaeth cwmnïau – eu sloganau a'u deunydd marchnata fod yn Gymraeg ac nad oedd wir wahaniaeth os nad yw enw'r cwmni yn Gymraeg. Ar y llaw arall creda dau ymatebwr y dylai enw fod yn Gymraeg a bod hynny'n datgan eu Cymreictod tra bod yr ymatebwr arall o'r farn y dylai'r safonau orfodi newid enw brand presennol, os nad ydynt yn Gymraeg



## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 8: personau sy'n darparu gwasanaethau rheilffyrdd i'r cyhoedd

eisoes. Dylai staff Cymraeg gyflwyno eu hunain yn Gymraeg a gwisgo bathodynau laith Gwaith i amlygu eu gallu i ddarparu gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yr oedd Cymdeithas yr Iaith yn teimlo nad yw'r safonau presennol yn 'mynd i'r afael ar hyn o bryd' a bod angen cryfhau safonau gwasanaeth Cymraeg wyneb yn wyneb i'r diben hwn. Yr oeddynt hefyd o'r farn bod angen i'r sefydliadau hyn gynllunio eu gweithlu er mwyn gallu cynnig gwasanaethau Cymraeg. Maent yn galw am ad-drefnu safonau fel bod safon ynghylch recriwtio yn cael ei gynnwys gyda'r 'Safon Cyflenwi Gwasnaeth.'

### Safonau cadw cofnodion

Derbyniwyd ychydig o sylwadau a oedd yn cefnogi'r angen i sefydliadau gadw cofnodion, a hynny er mwyn sicrhau monitro cydymffurfiaeth. Ar y llaw arall yr oedd ambell ymatebwr o'r farn bod cadw cofnodion yn fyrdwn ar y cwmnïau ac yn waith diangen iddynt.

## 6 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Banel Cyngkori Comisiynydd y Gymraeg

Derbyniwyd tystiolaeth gan y panel Cyngkori yn unol â'r gofynion a amlinellir yn adran 63(3) y Mesur.

Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd gan y Panel yn dangos cefnogaeth i bwrpas y rheoliadau sef gwireddu amcanion sylfaenol y Mesur y Gymraeg; bod y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru ac na ddylid ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Gan gydnabod y bydd pryder ymysg y rheini a gaiff eu rheoleiddio gan y Comisiynydd, pwysleisiwyd y dylid sicrhau bod pawb yn deall gofynion y Mesur; y Ddeddfwriaeth a ysgogodd ddyfodiad y safonau hyn.

Fel nodwyd mewn ymateb i ymchwiliadau blaenorol, roedd y panel o'r farn y dylid ystyried sut y bydd rhai safonau yn cael eu gweithredu mewn modd 'rhesymol a chymesur' wrth osod y gofynion mewn hysbysiadau cydymffurfio o dan adran 44 y Mesur.

Cytunodd y Panel yn gyffredinol y dylai'r gwasanaethau a enwir yn yr holiadur gael eu cynnig yn Gymraeg gan y cwmnïau. Yr oedd y Panel o'r farn y dylai pob cytundeb masnach gynnwys y gofyniad i gynnig gwasanaeth dwyieithog a dylai pob cwmni sydd yn derbyn arian cyhoeddus o ba bynnag ffynhonnell fod yn rhwymedig i wneud yr un peth.

Er hyn, gwelwyd gyda rhai gwasanaethau nad oedd aelodau o'r Panel yn gytûn neu yr oeddynt yn codi cwestiynau pellach. Roedd un aelod yn cwestiynu rhesymoldeb gofyn i sefydliadau gynnal cyfarfodydd dwyieithog gydag unigolion. Roedd aelod o'r Panel yn cwestiynu a yw gwasanaeth annerch cyhoeddus dwyieithog yn realistig i'r cwmnïau dan sylw tra bod aelod arall o'r farn ei fod yn bwysig i normaleiddio amlieithrwydd. Yr oedd un aelod hefyd yn pryderu am oblygiadau ariannol cynnig gwasanaeth derbyn ymwelwyr yn ddwyieithog.

Nododd un aelod o'r Panel y dylid annog cynnig cyrsiau yn Gymraeg yn hytrach na gorfodi, tra bod aelod arall o'r panel yn ei weld fel hawl sylfaenol i weithwyr.

Cafwyd sylw arall ynghylch rhoi blaenoriaeth i faterion sydd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gwasanaeth o ddydd i ddydd i'r cyhoedd yn hytrach na gwasanaeth i unigolyn neu ddigwyddiad cyhoeddus sydd ddim yn rheolaidd. Yr oedd o'r farn y buasai gweithredu fel hyn yn annog datblygiad mewn defnydd o'r Gymraeg mewn modd cost-effeithiol.

## 7 Casgliadau'r ymchwiliad safonau

### Sylwadau cyffredinol

Daethpwyd i'r casgliadau isod ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd gan y personau perthnasol, y cyhoedd, y Panel Cyngori, ynghyd â thystiolaeth annibynnol a gasglwyd gan y Comisiynydd.

Daw'r rhestr o'r gweithgareddau a nodir yn Atodlen 9 Mesur y Gymraeg, yn ogystal â rhai sydd wedi eu cynnwys mewn rheoliadau blaenorol.

Ers dechrau'r ymchwiliad hwn, mae rheoliadau pellach wedi eu cyhoeddi mewn perthynas â'r Gymraeg. Nid oedd y Comisiynydd yn ystyried bod rhain yn berthnasol eu hystyried ar gyfer y sector hwn.

Nodir bod adran 42 o'r Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod rheoliadau'n darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â phob un o'r gweithgareddau a bennir yn Atodlen 9 yn benodol gymwys i berson os yw'r person hwnnw, ac i'r graddau y mae'r person hwnnw, yn gwneud y gweithgareddau hynny.

Er hynny, dylid nodi nad oes raid iddynt wneud hynny os yw'r Comisiynydd yn nodi mewn adroddiad safonau, neu os yw Gweinidogion Cymru o'r farn, y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw. Dylid nodi nad yw'r adran hon o'r Mesur yn atal rheoliadau o dan adran 39 rhag darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau eraill yn benodol gymwys i berson.

Yn unol â'r uchod, os amlygwyd drwy'r ymchwiliad safonau fod person yn gwneud y gweithgaredd,<sup>3</sup> boed hynny i raddau mwy neu lai, daw'r Comisiynydd i'r casgliad y dylai safonau mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw gael eu gwneud yn benodol gymwys iddynt.

Nodir hefyd y gall y modd y cyflenwir gwasanaeth mewn perthynas â gweithgaredd newid yn y dyfodol ac y byddai angen addasu i adlewyrchu hynny drwy amrywio'r hysbysiad cydymffurfio, yn hytrach na mynd yn ôl at reoliadau.

Er hynny, lle ceir tystiolaeth nad yw person yn gwneud gweithgaredd o gwbl, boed hynny drwy dystiolaeth a geir yn rhan o'r ymchwiliad safonau neu drwy ddulliau eraill, daw'r Comisiynydd i'r casgliad na ddylai safonau o dan y gweithgaredd hwnnw fod yn benodol gymwys iddynt, oni bai fod rhesymau dilys dros wneud hynny.

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd er mwyn dod i gasgliad ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio a roddir i bersonau perthnasol o dan adran 44 y Mesur.

### Safonau cyflenwi gwasanaethau

Dylid gwahaniaethu'n glir rhwng ymrwymadau person (yr hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt) a pherfformiad (i ba raddau maent yn cydymffurfio â'r disgwyliadau hynny ar hyn o bryd).

<sup>3</sup> Gweithgaredd cyflenwi gwasanaethau fel y'i diffinnir yn adran 28 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

## Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 8: personau sy'n darparu gwasanaethau rheilffyrdd i'r cyhoedd

Nodir mai mater ymarferol yw perfformiad, yn ogystal ag i ba raddau y gall person gydymffurfio â safon ar amser penodol. Gall y graddau hynny wella, gwaethygu neu aros yr un fath. Mae'r Comisiynydd o'r farn y dylai ymrwymadau ddiwallu anghenion defnyddwyr y Gymraeg y maent yn eu gwasanaethu, gydag amserlen resymol wedi ei phennu ar gyfer delio ag unrhyw rwystrau sy'n bodoli. Bydd y Comisiynydd yn ystyried y rhwystrau hynny wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio a gyflwynir o dan adran 44 y Mesur.

Cydnabyddir i'r cwmnïau adnabod heriau a rhwystrau posib i gydymffurfiaeth lawn â rhai o'r safonau cyflenwi gwasanaeth. Serch hynny, mae'r Comisiynydd o'r farn y gellid cwrdd ag ymrwymadau sy'n gymesur ag anghenion defnyddwyr y Gymraeg gydag amserlen resymol ar gyfer gweithredu ac ymdrin ag unrhyw heriau.

Bydd y Comisiynydd yn ystyried yr anghysonderau hynny ymhellach wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiad cydymffurfio unigol a gyflwynir o dan adran 44 y Mesur.

Er bod y graddau mae'r cwmnïau masnachfrait trenau yn darparu gwasanaethau yn Gymraeg ar hyn o bryd yn amrywio, mae tystiolaeth yr ymchwiliad yn dangos bod holl weithgareddau Atodlen 9 Mesur y Gymraeg yn berthnasol i'r sector. Roedd o leiaf un o'r 4 cwmni yn darparu pob un o'r gweithgareddau. Ystyriwyd rhai gwasanaethau eraill fel rhan o'r ymchwiliad hefyd, fel nodir yng nghasgliad 1.

### Casgliad 1:

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau isod fod yn benodol gymwys i bersonau neilltuedig sy'n darparu i'r cyhoedd wasanaethau rheilffyrdd i deithwyr:

- gohebiaeth a anfonir gan gorff at nifer o bobl
- gohebiaeth a anfonir gan gorff at unigolyn neu gwmni
- ymateb i ohebiaeth Cymraeg mae corff wedi ei dderbyn
- galwadau ffôn i brif rhif ffôn y corff ac i unrhyw linellau cymorth neu ganolfannau galwadau
- galwadau ffôn wedi ei hawtomeiddio
- cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd
- cyfarfodydd rhwng corff ac un person gwahoddedig arall
- cyfarfodydd rhwng corff a mwy nag un person gwahoddedig
- cyhoeddusrwydd, hysbysebu a dangos deunyddiau yn gyhoeddus gan gorff
- corff yn arddangos deunydd yn gyhoeddus
- corff yn llunio ac yn cyhoeddi dogfennau
- corff yn llunio ac yn cyhoeddi ffurflenni
- gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff
- defnydd corff o'r cyfryngau cymdeithasol
- peiriannau hunanwasanaeth
- arwyddion a arddangosir gan gorff
- derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff
- apiau a gyhoeddir gan gorff
- corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol
- codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff
- dyfarnu contractau i drydydd parti
- safonau ynghylch corff yn dyfarnu grantiau
- hunaniaeth gorfforaethol corff

- systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff

Nododd pob cwmni a gyfrannodd i'r ymchwiliad safonau nad oeddynt yn darparu cyrsiau sy'n agored i'r cyhoedd megis seminar neu weithdy. Oherwydd natur a swyddogaethau'r personau dan sylw, ynghyd â'u nod ac amcanion, daw'r Comisiynydd i'r casgliad na fyddai hyn yn weithgaredd perthnasol i bersonau neilltuedig sy'n darparu i'r cyhoedd wasanaethau rheilffyrdd i deithwyr.

### Casgliad 2:

Wrth ystyried pennu safonau mewn rheoliadau ar gyfer y personau a ddaw o fewn Atodlen 8 y Mesur, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau na chaiff ymrwymïadau ac arferion presennol sydd yn cyfateb i'r safonau gweithredu eu colli yn rhinwedd unrhyw ddyletswyddau newydd o dan y drefn safonau. Dylid ystyried er enghraifft y posibilrwydd o gynnwys gofynion am recriwtio a hyfforddi o dan safonau sy'n ymdrin â materion atodol, neu drwy ddulliau eraill.

### Cadw Cofnodion

Yn seiliedig ar y dystiolaeth, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai darparwyr gwasanaethau trenau i'r cyhoedd gadw cofnod yn dweud sut y maen nhw'n cadw at y safonau y disgwylir iddi gydymffurfio â hwy, yn ogystal â chofnod o gwynion.

### Casgliad 2:

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cadw cofnodion fod yn benodol gymwys i bersonau neilltuedig sy'n darparu i'r cyhoedd wasanaethau rheilffyrdd i deithwyr

### Safonau sy'n ymdrin â materion atodol

Mae darpariaeth yn y Mesur yn ymwneud â threfniadau monitro a gofynion adrodd ar gyfer y gyfundrefn safonau (Adran 27 – Darpariaethau Atodol). Pwrpas y safonau yw hwyluso adrodd a monitro cydymffurfedd sefydliadau a gosod camau iddynt gyhoeddi gwybodaeth ar eu perfformiad yn erbyn y gofynion statudol. Mae hyn yn gydnabyddiaeth o egwyddorion sylfaenol rheoleiddio sy'n cydnabod fod gan y sefydliad, yn ogystal â'r arolygwr neu reoleiddiwr rôl i'w chwarae mewn sicrhau ymlyniad at ofynion statudol.

### Casgliad 3:

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i'r safonau sy'n ymdrin â materion atodol mewn perthynas â'r safonau cyflenwi gwasanaethau a chadw cofnodion fod yn benodol gymwys i bersonau neilltuedig sy'n darparu i'r cyhoedd wasanaethau rheilffyrdd i deithwyr a hynny er mwyn sicrhau trefniadau adrodd a gweithdrefnol addas.

### Materion eraill – safonau gweithredu

Nid oes modd i'r Comisiynydd osod safonau gweithredu ar gyrff Atodlen 8. Er hynny, mae rhai gweithgareddau gweithredol megis hyfforddiant a recriwtio yn berthnasol i lwyddiant safonau cyflenwi gwasanaethau.

### Casgliad 4:

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru ystyried sut i sicrhau bod modd cynnwys safonau ar hyfforddiant a recriwtio ar y sector mewn rheoliadau drafft

## Datblygiadau i'r rhwydwaith a gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru

Ar 22 Ionawr 2016 fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru dogfen ymgynghori: 'Pennu Cyfeiriad Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau'<sup>4</sup>. Yn y ddogfen ymgynghori hon mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai gwasanaethau trên sy'n gweithredu yng Nghymru a'r Gororau gyfrannu at gyfres o ganlyniadau lefel uchel erbyn 2030. Mae ymrwymadau yn y ddogfen at weledigaeth Llywodraeth Cymru er mwyn gweld y Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg yn ffynnu yng Nghymru. Mae'r ddogfen yn nodi deg maes i'w hystyried wrth gyflwyno safonau mewn perthynas â'r Gymraeg ar gyfer personau neilltuedig sy'n darparu i'r cyhoedd wasanaethau rheilffyrdd i deithwyr.

Mae casgliadau'r ymchwiliad safonau hwn fel y nodir uchod mewn perthynas â safonau cyflenwi gwasanaethau yn cynnig y dylid ystyried rhai meysydd ychwanegol y tu hwnt i'r deg maes a nodwyd yn nogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru.

## Gosod masnachfaint newydd ar gyfer rheilffyrdd yng Nghymru

Ar hyn o bryd mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldebau dros reoli'r fasnachfaint ar y cyd â Llywodraeth y DU. Mae cytundeb y fasnachfaint yn nodi'r gofynion y disgwylir i gwmnïau trenau eu dilyn wrth gyflenwi gwasanaethau trenau.

Bydd masnachfreintiau rheilffyrdd yn cael eu datganoli'n llawn i Lywodraeth Cymru o 2017 ymlaen. Yn 2017, bydd Gweinidogion Cymru'n dechrau ar y broses gaffael ffurfiol ar gyfer y fasnachfaint nesaf.

## Casgliad 5:

Cred Comisiynydd y Gymraeg y dylai Gweinidogion Cymru, wrth lunio'r masnachfaint newydd ar gyfer rheilffyrdd yng Nghymru, roi ystyriaeth lawn i safonau'r Gymraeg.

---

<sup>4</sup> [Pennu Cyfeiriad Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau: ymgynghoriad Llywodraeth Cymru \(Ionawr 2016\)](#)

## 8 Y Camau Nesaf

Wrth ddarparu'r adroddiad safonau hwn mae Comisiynydd y Gymraeg wedi ystyried yr holl ymatebion a gyflwynwyd i'r ymchwiliad safonau. Caiff yr adroddiad hwn ei gyflwyno i'r isod yn unol ag adran 64(4) y Mesur:

- pob person perthnasol
- Panel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg
- pob person a gymerodd ran yn ymgyngoriad y Comisiynydd yn unol ag adran 63
- Gweinidogion Cymru.

Ochr yn ochr ag ymchwiliadau safonau Comisiynydd y Gymraeg, disgwylir i Weinidogion Cymru gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth berthnasol y maent yn bwriadu ei gwneud, gan ddefnyddio eu pwerau is-ddeddfwriaethol eu hunain.

Noda Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mai asesiad effaith rheoleiddiol yw'r isod:

'A regulatory impact assessment is an assessment as to the likely costs and benefits of complying with relevant Welsh subordinate legislation.'<sup>5</sup>

Yn hyn o beth, gall asesiad effaith rheoleiddiol gael ei ystyried:

- yn broses i helpu Gweinidogion Cymru ystyried effaith y rheoliad arfaethedig ar fuddiannau unigolion, grwpiau, sefydliadau ac ati
- yn gyfrwng i alluogi Gweinidogion Cymru i bwysu a mesur costau a manteision yr holl opsiynau sydd ar gael iddynt cyn gweithredu polisi; ac
- yn fodd o gyflwyno'r dystiolaeth berthnasol ar effeithiau cadarnhaol a negyddol ymyriadau o'r fath at ddibenion craffu ar y dystiolaeth honno.<sup>6</sup>

Bydd disgwyl i Weinidogion Cymru ystyried y dystiolaeth a gasglwyd ganddynt at ddibenion yr asesiad effaith rheoleiddiol, ochr yn ochr â chasgliadau Comisiynydd y Gymraeg mewn adroddiad safonau wrth benderfynu a ddylent arfer y pwerau sydd wedi eu rhoi iddynt o dan Ran 4 y Mesur ai peidio.

<sup>5</sup> Adran 76(2)(a) Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

<sup>6</sup> <http://gov.wales/docs/legislation/guidance/091020riacodecy.doc>



## Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymchwiliad safonau

Isod ceir rhestr o'r person(au) perthnasol y cynhaliwyd ymchwiliad safonau mewn perthynas â hwy, y Panel Cyngchori ynghyd ag aelodau'r cyhoedd a oedd yn fodlon inni gyhoeddi eu sylwadau.

### Personau perthnasol

- Trenau Arriva Cymru
- GWR
- Virgin Trains
- Cross Country

### Aelodau'r cyhoedd

- Alaw Fôn Huws
- Ben Sulley
- Bethan Williams
- Clive Betts
- Clive James
- Curon Wyn Davies
- Cynghorydd Jeff Smith
- Dafydd Lloyd
- David Subacchi
- Elan
- Elin Walker Jones
- Elwyn Vaughan
- Fred Jeffreys
- Gareth Clubb
- Gareth Popkins
- Gethin Rhys
- Helen Greenwood
- Huw Roberts
- Ieuan Parry
- Janice Rhisiart
- Judith Humphreys
- Liam Townsend
- Lowri Cunnington
- Lowri Price
- Lyn Williams
- Marc Evans
- Marged
- Meinir James
- Morgan Owen
- Nia Llwyd
- Paul Harley
- Phil Edwards
- Sali Burns
- Siôn Jobbins
- Sioned Williams
- Steffan Bryn
- Steffan Rees
- Stephen Rule
- Wiliam Rowlands

### Sefydliadau

- Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

### Panel Cyngchori Comisiynydd y Gymraeg

- Bethan Jones Parry
- Carl Cooper
- Dr Heledd Iago
- Meinir Davies
- Nick Speed